



dawnsibawb



Adroddiad Blynyddol 2024 – 2025

Dawns i Bawb

GWEITHGAREDDAU ARTISTIG

1 / LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL

UCHAFBWYNTIAU

- ★ Cydweithio ar brosiect 'Strictly Gwynedd a Môn' mewn partneriaeth â Mencap Môn, Llwybrau Llesiant, Antur Waunfawr a Seren Ffestiniog gyda dros 450 o bobl yn cymryd rhan ar y digwyddiad yng Nghwesty Celtic, Caernarfon
- ★ Derbyn nawdd gan Gyngor Môn i gynnal sesiynau dawns croes-oedrannol i gartrefi preswyl lleol a phlant o ysgolion lleol. Daeth y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ymweld â'r sesiynau ac yn ymateb yn cadarnhaol iawn i'r gwaith.
- ★ Datblygu sawl partneriaeth newydd er mwyn cydweithio i ddatblygu ymgysylltiad ar ein rhaglen dawns yn cynnwys:
 - ★ Gweithio mewn partneriaeth â Canolfan Gerdd William Mathias a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i gynnal sesiynau dawns a cherdd i deuluoedd sydd â phlentyn awtistig yn y teulu
 - ★ Gweithio mewn partneriaeth â Porthi Dre i gynnal sesiynau dawns mewn cadair i bobl hŷn
 - ★ Gweithio mewn partneriaeth â Croeso Menai i gynnal prosiect peilot i datblygu cyfleoedd dawns i ffoaduriaid
 - ★ Parhau i gydweithio gyda Ballet Cymru ac Ysgol Llanllyfni i gynnal prosiect DUETS
- ★ Wedi cynnal 473 o sesiynau gyda 6798 wedi cyfranogi. Wedi creu 11 perfformiad gyda 1266 o gynulleidfa a 24 gweithdy hyfforddiant gyda 99 o bobl yn cymryd rhan. Mae niferoedd yn is na flwyddyn diwethaf oherwydd diffyg staff, yn enwedig staff sy'n gallu cynnal prosiectau mewn ysgolion. Rydym yn dal yn gweld llai o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ers y pandemig.
- ★ Yn parhau i fod yn rhan o cohort 'Creative Transformations 2024' gyda'r cwmni People Make It Work sy'n cefnogi ni dros 18 mis i ddatblygu model busnes mewn ymateb i'r adnoddau sy'n ar gael i ni.
- ★ Cynnal perfformiad blynyddol 'Gafael yn Fy Llaw' gyda phob grwp sy'n rhan o raglen Dawns i Bawb yn perfformio. Roedd dros 99 o bobl o bob oedran a gallu yn perfformio i gynulleidfa o 284.

RHAGLEN DDAWNS GYMUNEDOL

Rydym wedi parhau i gydweithio gyda phartneriaid allweddol a datblygu partneriaethau newydd er mwyn tyfu ein rhaglen gymunedol a chyrraedd grwpiau newydd. Mae ein Rhaglen Ddawns Gymunedol yn digwydd yn rheolaidd dros Wynedd ac Ynys Môn ac yn cynnwys sesiynau Dawnsyr Dre i blant a phobl ifanc 4-12 oed, Grŵp Dawns Llwybrau a Mencap Môn ar gyfer oedolion anabl, sesiynau dawns mewn cadair i bobl hyn yn Porthi Dre a rhaglen DUETS mewn partneriaeth â Ballet Cymru. Mae sesiynau yn addas i bawb ac yn rhoi cyfle i bobl dysgu sgiliau newydd, cymdeithasu, magu hyder a chael hwyl. Mae pob sesiwn yn digwydd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.



RHAGLEN DDAWNS I GARTREFI PRESWYL

Mae ein Rhaglen Ddawns i Gartrefi yn parhau i ddatblygu. Trwy grant SPF Gwynedd, rydym wedi gallu parhau i gynnal sesiynau am ddim i rai o gartrefi. Dros flwyddyn, mae dros 15 o gartrefi yn cael un sesiwn am ddim pob mis. Mae sesiynau yn parhau i fod yn boblogaidd ac eleni mae un cartref wedi cymryd rhan yn ein sioe flynyddol trwy ddawns ar ffilm. Mae gan bob sesiwn elfen o fynegiant creadigol, datblygu iechyd a lles corfforol ac annog cymdeithasu. Eleni, rydym wedi cydweithio gyda Cyngor Môn i gynnal sesiynau dawns i breselwyr cartrefi a phlant o ysgolion lleol.

Cynnal 94 sesiwn gyda 1345 o gyfranogwyr



DAWNS MEWN YSGOLION a CHREU PROSIECTAU ADDYSGIADOL PENODOL

Rydym yn parhau i gydweithio gydag ysgolion dros Wynedd, Ynys Môn a Chonwy i ddarparu prosiectau dawns fel rhan o'r Celfyddydau Mynegiannol ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae dawns yn ffordd ffantastig i ddisgyblion ddatblygu eu gallu creadigol ar draws holl feysydd dysgu.

Mae'r prosiectau yn defnyddio dawns i greu profiadau positif gan ddatblygu coreograffi, cydweithio ac adeiladu tîm, defnyddio creadigrwydd a dychymyg fel rhan o broses dysgu, a chreu a pherfformio.

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn hanfodol i'r pedair egwyddor cynnydd drwy ganiatáu i ddisgyblion ddod yn unigolion brwdfrydig a chreadigol, gan ddefnyddio'i dychymyg a chyfuno sgiliau llythrennedd (defnyddio iaith fynegiannol a myfyriol), rhifedd (archwilio cysyniadau sy'n ymwneud â rhifau megis rhythm, cyfri ac ailadrodd) a chymhwysedd digidol (technoleg cynhyrchu, golygu ffilm a ffotograffau, rhannu gwaith digidol)

Cynnal 127 o sesiynau gyda 2794 o gyfranogwyr



SIOE FLYNYDDOL DAWNS I BAWB 2024

Roedd 'Gafael yn Fy Llaw' yn cael ei pherfformio gan dros 100 o bobl o bob oedran a gallu i 284 o gynulleidfa.

2 / PWYNTIAU DYSGU ALLWEDDOL

Mae blwyddyn wedi bod yn un heriol gyda torriadau ariannol, newidiadau i strwythur staff mewn ymateb i'r torriadau, diffyg staff addysgu a'r Cyfarwyddwr Artistig yn gorfod cymryd cyfnod o absenoldeb o waith.

Rydym yn parhau i gefnogi tiwtoriaid di-gymraeg i ddysgu'r iaith a teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Cymraeg yn eu sesiynau. Mae heriau o dod o hyd tiwtoriaid dawnys sy'n gallu dysgu ar ein rhaglen a siarad Cymraeg yn parhau, ond rydym yn falch o weld adroddiad gan Gyngor Celfyddydau yn ymrwmo at datblygu dawnswyr iaith Gymraeg fel rhan o'r adolygiad dawnys dros y misoedd nesaf.

Mae Cyfarwyddwr Artistig wedi parhau fel aelod o gynllun 'Creative Transformations' sydd wedi bod yn werthfawr iawn wrth gynllunio ein ffordd ymlaen. Mae newid mewn cyllid a staff yn golygu bod rhaid i'r cwmni addasu a newid ein ffordd o weithredu.

3 /STATS

★ Wedi cynnal 473 o sesiynau byw gyda 6798 wedi cyfranogi. Wedi creu 11 perfformiad cyhoeddus yn cynnwys ein sioe flynyddol gyda dros 100 yn perfformio o bob oedran a gallu a 284 o gynulleidfa. Mae niferoedd yn is na flwyddyn diwethaf oherwydd diffyg staff i gynnal ein rhaglen, yn gorfod cynnal llai o weithgareddau oherwydd torriadau ariannol ond hefyd mae shift mewn blaenoriaethau y Cwmni (gweithio gyda grwpiau preigus yn hytrach na grwpiau mawr o blant) yn meddwl bod niferoedd mewn grwpiau yn llai.

4.STAFF / GWEITHWYR LLAWRYDD

Roedd rhaid newid ein strwythur staff eleni ac erbyn hyn, dim ond un aelod o staff yn gweithio yn llawn amser i'r Cwmni

Newidiadau

Apwyntio Swyddog Gweinyddol newydd rhan amser

Maddie Burnham yn gadael fel Ymarferwr Datblygu Dawns

Lauren Rooney yn mynd ar gyfnod mamolaeth ac apwyntio Siri Wigdel fel Ymarferwr Datblygu Dawns dros dro

Yn apwyntio Awen Pritchard fel Intern Dawns Gymunedol

Yn cyflogi 3 berson ifanc i gynorthwyo sesiynau dawnys wythnosol i blant

5.BWRDD

Newidiadau Disgwylidig

Dim newid i aelodau Bwrdd ar gyfer 2024-25

Fon Roberts ac Ann Postle yn cytuno parhau fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd am gyfnod er mwyn cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig trwy'r cyfnod o absenoldeb

6. PERTHYNAS GYDA'N PRIF GYLLIDWYR

CCC: Perthynas bositif iawn ac rydym yn cael cefnogaeth dda gan Swyddfa Gogledd Cymru.

Cyngor Sir Gwynedd: da a chyflenwol

Cyngor Sir Ynys Môn: da a chyflenwol

Newidiadau Disgwylidig

Mae Dawns i Bawb wedi llwyddo cwblhau fel blwyddyn cyntaf Aelod Portffolio CCC 2023-2026. Rydym wedi cael cynydd bach o 3.5% ar gyfer grant refeniw 2025-2026.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig grant o £4,400 fel grant pontio wrth i'r SPF dod i ben ym mis Ionawr. Bydd cyfle ceisio am grant strategol Gwynedd ar gyfer 2025-2027 yn ystod mis Mawrth 2025

Cyngor Sir Ynys Môn wedi cadarnhau £2898 ar gyfer 2024/25

Diolch yn fawr i bob un am y cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

7. PARTNERIAETHAU

Mae Dawns i Bawb wedi llwyddo i greu nifer partneriaethau newydd cyffrous yn ystod y flwyddyn a pharhau i gyd-weithio gyda partneriaethau allweddol

Bydd 'DUETS' mewn partneriaeth a Ballet Cymru i ddatblygu rhaglen ysgoloriaeth bale o fewn cymunedau difreintiedig wedi parhau yn Ysgol Llanllyfni. Mae'r grwp wedi perfformio gyda'r Cwmni yn Pontio yn ystod y flwyddyn mewn sioe 'Daydreams & Jellybeans.'

Wedi cydweithio gyda Llwybrau Llesiant, Mencap Mon, Antur Waunfawr a Seren Ffestiniog i gynnal digwyddiad Strictly Gwynedd a Môn

Partneriaeth newydd gyda Croeso Menai, Porthi Dre, Canolfan Gerdd William Mathias, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Tro Cyntaf i Bopeth

GAIR GAN Y CYFARWYDDWR ARTISTIG

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn eto gyda dechrau blwyddyn cyntaf fel Aelod Portffolio CCC gyda torriad yn y cynnig grant. Mae hyn wedi golygu doedd dim modd symud ymlaen gyda'r cynllun o godi niferoedd staff a wedi gorfod creu strwythur newydd i staff presennol. Rydym hefyd wedi wynebu'r her o diffyg argaeledd ein tiwtoriaid llawrydd oherwydd materion gofal plant a salwch tymor hir.

Er gwaetha'r heriau, mae gwaith cyffrous a phwysig wedi parhau. Rwy'n falch i gydweithio gyda People Make It Work dros y flwyddyn sydd wedi cefnogi fi a'r Cwmni i ddatblygu cynllun strategol mewn ymateb i'n heriau. Rwy'n edrych ymlaen i weithredu ar y cynllun yn ystod 2025-26.

Hoffwn diolch i'n staff, arianwyr, partneriaid a'r cyfranogwyr am yr holl gefnogaeth dros y flwyddyn.



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



Funded by
UK Government

